




Cyfarwyddwr Artistig

Pecyn Cais



Theatr y Sherman
Heol Senghennydd
Caerdydd
CF24 4YE
Rhif Elusen Gofrestredig: 1118364

Gwybodaeth Gefndir

Hanes

Agorwyd Theatr y Sherman yn 1973 gyda chymorth ariannol sylweddol gan ragflaenydd Prifysgol Caerdydd. Yn 1987, tynnodd y Brifysgol ei chymorth ariannol ar gyfer y theatr yn ôl, gan ei rhoi ar werth. Prynodd Cyngor Celfyddydau Prydain Fawr yr adeilad gyda grant arbennig gan y Swyddfa Gymreig, a rhoddwyd prydles 125 mlynedd i gwmni newydd Theatr y Sherman. Erbyn hyn, mae'r berchnogaeth wedi trosglwyddo i Gyngor Celfyddydau Cymru. Rhwng 1990 a 2006, roedd y theatr yn rhoi pwyslais cryf ar theatr ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc, ond yn 2007, ar anogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, unwyd Cwmni Theatr y Sherman a Sgript Cymru, y cwmni datblygu cenedlaethol ar gyfer ysgrifennu i'r theatr, i ffurfio Sherman Cymru – sef Theatr y Sherman bellach.

Yn 2014, ar ôl ailstrwythuro'r Tîm Gweithredol, penodwyd Rachel O'Riordan yn Gyfarwyddwr Artistig y cwmni, ac mae wedi gweithredu gweledigaeth lwyddiannus yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Yn ystod ei chyfnod yn y swydd, mae'r Theatr wedi rhoi'r gwaith o ddatblygu artistiaid o Gymru ac artistiaid sy'n byw yng Nghymru wrth galon ei gwaith ysgrifennu newydd, gyda llwyddiannau fel *Iphigenia in Splott*, *Killology* a *The Cherry Orchard* gan Gary Owen, *Bird* gan Katherine Chandler, *Tremor* gan Brad Birch, ymhlith llawer o brosiectau eraill.

Y Theatr

Yn dilyn ailddatblygiad gwerth £6.5 miliwn, gan ddechrau yn gynnar yn 2010, ailagorodd adeilad y Sherman ei ddrysau ym mis Chwefror 2012. Roedd y cyfleusterau cyhoeddus a chefn llwyfan wedi eu gweddnewid yn llwyr. Gyda'i brif theatr 452 sedd a theatr stiwdio hyblyg 60-150 sedd, mae'n gyfleuster ardderchog ar gyfer y celfyddydau yng Nghaerdydd. Mae'r gwaith adnewyddu wedi creu pensaernïaeth allanol unigryw ac ardaloedd Blaen Tŷ helaeth. Cynhaliwyd gwaith ailddatblygu pellach yn y cyntedd ym mis Ionawr 2018, er mwyn creu gofod cynnes a chroesawgar sy'n addas i bob cynulleidfa, y gellir ei ddefnyddio drwy'r dydd, ac yn arbennig, er mwyn gwella profiad y gynulleidfa mewn perfformiadau. Mae gan y theatr gyfleusterau cefn llwyfan ardderchog, gan gynnwys gofod gwisgo a chynnal gweithdai, yn ogystal â dwy ystafell ymarfer. Mae prif llwyfan y Sherman yn arbennig o addas ar gyfer gwaith theatr a dawns maint canol, ac mae'r stiwdio wythonglog yn cynnig gofod hyblyg ar gyfer gwaith llai o faint, mwy agos-atoch.

Yn 2017/18, roedd trosiant Theatr y Sherman yn £2.1miliwn. Derbyniodd £1.1miliwn gan Gyngor Celfyddydau Cymru.



Ein Gwaith

Cenhadaeth

Rydym yn gwneud ac yn curadu gwaith theatr cyffrous ar gyfer cynulleidfaoedd Caerdydd. Rydym yn datblygu ac yn meithrin gwaith artistiaid o Gymru ac artistiaid sy'n byw yng Nghymru. Rydym yn creu cyfleoedd i ddinasyddion Caerdydd gysylltu â theatr drwy ymgysylltu mewn ffordd sy'n berthnasol, yn cynnig gweledigaeth ac yn ysbrydoli.

Amcanion Elusennol

Hyrwyddo ac annogy celfyddydau ac yn enwedig y celfyddydau perfformio er lles y cyhoedd drwy ddatblygu, cynhyrchu a chyflwyno gwaith theatr a gwaith ysgrifennu newydd, darparu cyfleusterau theatr a hyrwyddo addysg plant, pobl ifanc ac oedolion drwy roi cyfle iddynt gymryd rhan ym mhrofiad theatr, drama a'r celfyddydau perfformio.

Gweledigaeth Artistig

Yn 2018, cafodd Theatr y Sherman ei chydnabod fel Theatr Ranbarthol y Flwyddyn yng Ngwobrau The Stage. Mae hyn yn dangos ac wedi arwain at broffil uwch i Theatr y Sherman ledled Prydain yn ogystal â chryfhau ein safle yn y sector.

O dan arweinyddiaeth artistig ysbrydoledig, mae Theatr y Sherman wedi datblygu rhaglen artistig gyffrous sy'n apelio at gynulleidfaoedd Caerdydd, ac mae ei llwyddiant i'w weld yn y cynnydd cyffredinol yn niferoedd y gynulleidfa yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Rydym yn dal i ddatblygu ein henw da am waith adrodd stori beiddgar, gwerthoedd cynhyrchu uchel ar gyfer cynrychiadau'r Sherman, a'r gwaith teithiol gorau. Roedd rhagoriaeth y gwaith ar ein llwyfannau i'w gweld yn 2018 gyda Gwobr Olivier am Gyflawniad Rhagorol yn y Theatr ar gyfer *Killology* gan Gary Owen, a gyfarwyddwyd gan Rachel O'Riordan mewn cyd-gynhyrchiad gyda Theatr y Llys Brenhinol. Daeth Theatr y Sherman yn gwmni theatr cyntaf Cymru i drosglwyddo cynhyrchiad i'r National Theatre, gydag *Iphigenia in Sploot* ym mis Ionawr 2016, ac yn gwmni theatr cyntaf Cymru i wneud cyd-gynhyrchiad gyda Theatr y Llys Brenhinol, sef *Killology* yng ngwanwyn 2017.

Y weledigaeth yw sicrhau bod Theatr y Sherman yn dod yn ganolog i Theatr Cymru: yn adnodd dinesig, yn beiriant creadigrwydd ac yn ganolfan adloniant. Ein nod yw sicrhau bod ein gwaith ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd yn onest, yn heriol, yn ymatebol ac yn berthnasol. Mae'r canlynol yn ganolog i'r weledigaeth honno: ymrwymiad i waith ysgrifennu newydd; buddsoddi mewn rhaglen datblygu artistiaid strwythuredig a chadarn sy'n dangos tystiolaeth o ddilyniant gyrfa; ymgysylltu diffuant a thrylwyr gyda holl gymunedau Caerdydd; ac uwchlaw'r cyfan, rhagoriaeth ym mhopeth y bydd Theatr y Sherman yn ei wneud.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae'r Sherman wedi datblygu perthynas gref gyda nifer gynyddol o sgwenwyr o Gymru a sgwenwyr sy'n byw yng Nghymru. Mae gwaith yr artistiaid hyn wedi bod yn rhan allweddol o waith rhaglennu'r Sherman ar gyfer cynulleidfaoedd Caerdydd, gyda llawer o'r dramâu hefyd yn byw bywyd wedyn y tu allan i'r Sherman ac yn cael sylw ehangach ledled gwledydd Prydain, ac yn ehangach na hynny hefyd ambell waith.

Cynhyrchu

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae Theatr y Sherman wedi gwneud enw iddi'i hunan fel tŷ cynhyrchu blaenllaw yng Nghymru a gwledydd Prydain, gyda phatrwm datblygedig o waith yn cael ei gynhyrchu ledled y flwyddyn. Caiff gwaith ei greu yn Gymraeg ac yn Saesneg, a phan fo hynny'n briodol bydd yn teithio yng Nghymru, yng ngwledydd Prydain ac yn ehangach. Mae'r patrwm cynhyrchu presennol yn cynnwys: cynhyrchiad o destun clasurol yn y Brif Theatr yn yr hydref; sioe Nadolig i deuluoedd yn y Brif Theatr o dan arweiniad actor-gerddor; sioe Nadolig yn y Stiwdio ar gyfer plant 3-6 oed, wedi'i pherfformio yn Gymraeg ac yn Saesneg; o leiaf ddau ddarn o waith ysgrifennu newydd yn y Stiwdio yn y gwanwyn. Mae gwaith ehangach sydd wedi'i gynhyrchu yn cynnwys testun cyfoes ar y Prif Lwyfan yn y gwanwyn, darn Stiwdio Cymraeg yn yr hydref; a chyd-gynhyrchiad gyda'r Theatr Genedlaethol fel rhan o'r Eisteddfod Genedlaethol.



“... sheer quality and sharp as an axe.”

**** The Guardian. *The Cherry Orchard* gan Gary Owen, a gyfarwyddwyd gan Rachel O’Riordan, Hydref 2017

Yn hanfodol i hyn i gyd, mae gallu'r cwmni i weithio gyda phartneriaid cyd-gynhyrchu. Rydym wedi dechrau datblygu rhwydwaith cryf o sefydliadau partner drwy gyd-gynyrchiadau llwyddiannus gyda cwmnïau fel Theatr y Llys Brenhinol, Theatr Frenhinol y Gyfnewidfa, Theatr Genedlaethol Cymru, Theatr Clwyd, Theatrau'r Ffatri Dybaco, Paines Plough ac eraill.

“... reinvented for the modern age in Emma Jordan’s brutal, bold production”

★★★★ The Guardian am *Lord of the Flies*, cyd-gynhyrchiad gan Theatr y Sherman a Theatr Clwyd, a gyfarwyddwyd gan Emma Jordan

Yn gylch o gwmpas cynyrchiadau Theatr y Sherman, mae rhaglen sydd wedi'i churadu'n ofalus o waith o'r tu allan sy'n hygyrch, yn berthnasol ac yn ymatebol, ac sy'n cyffroi ac yn apelio at ystod eang o gynulleidfaoedd. Yn y rhan hon o'r rhaglen, rydym yn cyflwyno cwmnïau cenedlaethol Cymru yn ogystal â'r gwaith gorau o bob rhan o wledydd Prydain.

Datblygu Artistiaid

Yn ogystal â gwaith gan ddramodwyr sefydledig, mae pwyslais wedi bod ar ddatblygu doniau sy'n datblygu drwy'r Rhaglen Dramodwyr Cymreig Newydd, sy'n cael cefnogaeth hael gan Ymddiriedolaeth Carne. Yn 2018, fe wnaethon ni hefyd lansio rhaglen Cyflwyniad i Ysgrifennu Dramâu ar gyfer pobl ifanc rhwng 15 a 18 oed. Mae Theatr y Sherman hefyd yn arwain y ffordd o ran datblygu pobl sy'n dod o Gymru neu sy'n byw yng Nghymru i ddod yn gyfarwyddwyr y dyfodol drwy Raglen Cyfarwyddwyr y Sherman / JMK. Mae cyfle Cwmni Preswyl y Sherman yn cael ei gynnig i gwmni dwyieithog sy'n datblygu.

Eleni fe lanswyd Gwobr Dylunio'r Sherman / Coleg Cerdd a Drama, sy'n cael ei chefnogi gan Sefydliad Andrew Lloyd Webber. Caiff y wobwr hon ei dyfarnu i fyfyrwr dylunio blwyddyn olaf yn y Coleg Cerdd a Drama, ac mae'n rhoi cyfle iddynt gael eu swydd broffesiynol am dâl gyntaf fel dylunydd ar gynhyrchiad Stiwdio Nadolig y Sherman.

Mae gwaith datblygu artistiaid y Sherman yn flaenllaw yn y sector yng Nghymru, ac mae hynny i'w weld yn y dystiolaeth am ddatblygiad y rhai sy'n cymryd rhan.

Cymunedau ac Ymgysylltu

Mae gwaith Cymunedau ac Ymgysylltu Theatr y Sherman yn cefnogi pobl o gefndiroedd a gallu amrywiol mewn ystod o weithgareddau.

Mae gennym Theatr Ieuenctid ffyniannus sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc rhwng 5 a 18 oed, a grŵp oedolion ar gyfer pobl sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn. Rydyn ni'n un o ganolfannau cynnal Gŵyl Cysylltiadau'r National Theatre, sy'n rhoi cyfle i ni ymgysylltu â phobl ifanc o bob rhan o Gymru a De-orllewin Lloegr.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi rhoi lle canolog i'n cymunedau ar y prif lwyfan, gyda dau gynhyrchiad cymunedol mawr.

Mae'r gwaith Cymunedau ac Ymgysylltu hefyd yn cynnwys ein gwaith gydag ysgolion, drwy becynnau addysg yn ymwneud â chynhyrchu, teithiau cefn llwyfan a digwyddiadau gyrfaoedd.

Datblygu'r Gynulleidfa

Yn 2013, fel rhan o'u gwaith i ddathlu eu pen-blwydd yn 25 oed, dewisodd Sefydliad Paul Hamlyn bum sefydliad ar draws gwledydd Prydain i gael rhodd o £500,000 i'w galluogi i wneud cynnydd sylweddol o ran eu gwaith yn creu ac yn meithrin perthnasau gyda chynulleidfaedd o grwpiau dan anfantais yn eu cymunedau lleol. Roedd Theatr y Sherman yn un o'r pum sefydliad a gafodd rodd, a defnyddiwyd yr arian i sefydlu Sherman 5.

Mae Sherman 5 wedi bod yn gweithio gyda phobl sy'n wynebu rhwystrau a/neu anfantais ac sydd erioed wedi bod i berfformiad yn y theatr, gan roi cyfle iddynt wneud hynny.

Ers 2013, mae Sherman 5 wedi rhoi cyfle i 3,000 o aelodau gael mynediad at y theatr, gan wneud dros 13,500 ymweliad yn bosib ar gyfer aelodau Sherman 5. Mae 90 aelod wedi dod yn Gynrychiolwyr Sherman 5, gan ddyfnhau eu perthynas gyda Theatr y Sherman drwy wirfoddoli eu hamser i gyflawni amrywiaeth o ddyletswyddau yn gyfnewid am Gredydau Amser Tempo. Ymunodd 25 o deuluoedd â'r fenter fel teuluoedd Sherman 5. Rydym hefyd wedi bod yn

gweithio gyda thros 100 o bartneriaid a grwpiau cymunedol i roi mynediad i'r theatr i'w defnyddwyr gwasanaeth.

Drwy brosiect Sherman 5, rydym wedi gallu cynnal ymgysylltiad dyfnach gyda phobl o ran perfformiadau hygyrch, yn enwedig drwy'r Clwb Theatr Byddar a pherfformiadau addas i bobl â dementia.

Mae gwaith rhaglen Sherman 5 wedi dod yn rhan ganolog o ethos Theatr y Sherman. Drwy'r fenter hon, rydym wir wedi llwyddo i ymgysylltu â'n cymunedau ac i sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith ein cynulleidfaoedd. Bydd craidd y gwaith hwn yn parhau, ac mae'r cwmni yn y broses o wneud cais sylweddol am arian er mwyn sicrhau y gall gyflawni ei lawn botensial ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y gwefannau hyn:

www.shermantheatre.co.uk

www.visitcardiff.com

www.visitwales.com

Disgrifiad Swydd: Cyfarwyddwr Artistig

Prif ddiben y swydd

Y Cyfarwyddwr Artistig sy'n gyfrifol am ddatblygu a mynegi gweledigaeth artistig ar gyfer Theatr y Sherman, ac ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Gweithredol, am sicrhau bod y theatr yn cyflawni ei nodau strategol ac artistig gan aros yn sefydlog yn ariannol ac yn ymatebol i'w chynulleidfaedd. Mae'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol ill dwy/ill dau yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd ac yn cydweithio er mwyn cyflawni cenhadaeth y cwmni.

Yn adrodd i:

Cadeirydd y Bwrdd

Yn gyfrifol am:

Pennaeth Cynhyrchu a Chynllunio, Rheolwr Cymunedau ac Ymgysylltu, Cyfarwyddwr Cyswllt

Cydberthnasau allweddol

Cyfarwyddwr Gweithredol, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, Pennaeth Cyllid a Gweinyddiaeth, Rheolwr Codi Arian, Gweinyddydd Artistig a Chynorthwydd Gweithredol

Tasgau Allweddol

Arweinyddiaeth Artistig

- Gosod gweledigaeth artistig y theatr, ysbrydoli hyder a brwdfrydedd ymhlith y staff, cynulleidfaedd, y gymuned gelfyddydol ehangach a'r cyllidwyr fel ei gilydd.
- Curadu rhaglen hygyrch, berthnasol ac ymatebol ar gyfer y ddwy theatr yn Theatr y Sherman, a fydd yn apelio at ystod eang o gynulleidfaedd ac yn sicrhau cysylltiadau cryf rhwng penderfyniadau rhaglennu a blaenoriaethau datblygu cynulleidfaedd.
- Arwain y gwaith o wireddu holl waith cynhyrchu'r cwmni i'r safonau uchaf posib, cyfarwyddo a/neu greu nifer o gynyrchiadau y cytunwyd arnynt a chynnull a chefnogi timau artistig.
- Mynd ati i ganfod cyfleoedd ar gyfer cydweithio creadigol a chyd-gynyrchiadau, ac i ymestyn bywyd cynyrchiadau Theatr y Sherman.
- Cefnogi, datblygu a chomisiynu sgwenwyr newydd, sgwenwyr sy'n datblygu a sgwenwyr sefydledig a sicrhau safon uchel o fewnbwn dramayddol i ddramâu newydd sy'n cael eu comisiynu a'u cynhyrchu gan Theatr y Sherman.
- Goruchwylio gwaith y tîm Cymunedau ac Ymgysylltu.
- Goruchwylio'r mentrau datblygu artistiaid, gan gynnwys y Rhaglen Dramodwyr Cymreig Newydd, Rhaglen Cyfarwyddwyr y Sherman/JMK, Cyflwyniad i Ysgrifennu Dramâu a'r Cwmni Preswyl er mwyn sicrhau bod Theatr y Sherman yn parhau i fod yn ddarparwr cyfleoedd perthnasol ardderchog i artistiaid sy'n datblygu, gyda phwyslais penodol ar ddatblygu doniau yng Nghymru.
- Dangos ymrwymiad i gynhwysiant o ran timau creadigol a chastio, yn ogystal â mentrau datblygu cynulleidfaedd.

- Parhau i adeiladu ar ethos prosiect Sherman 5, gan hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu cynulleidfaoedd o gefndiroedd amrywiol a chreu theatr sy'n taro tant gyda'r cymunedau ehangaf posib yng Nghaerdydd a'r tu hwnt.
- Monitro, cynnal a gwella ansawdd yr holl weithgareddau artistig, gan gymryd rhan mewn trafodaethau beirniadol er mwyn codi safonau

Arwain a Rheoli

- Gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol, llunio, datblygu a gweithredu polisi ac amcanion artistig y cwmni a datblygu Cynlluniau Strategol a Busnes y cwmni.
- Datblygu a chynnal perthnasau proffesiynol adeiladol gydag arianwyr a rhanddeiliaid allweddol, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am flaengynlluniau strategol ac artistig a chwarae rhan weithgar o ran sicrhau cyllid.
- Mynd ati i ganfod cyfleoedd i greu partneriaethau a fydd yn cyfoethogi rhaglen, enw da a chyrhaeddiad Theatr y Sherman, gan ddatblygu perthnasau gweithio effeithiol gyda theatrau cynhyrchu a theatrau eraill Cymru, a lleoliadau a chwmmiau yng ngwledydd Prydain a'r tu hwnt, ac unigolion neu grwpiau eraill a all helpu i hyrwyddo nodau'r cwmni.
- Sicrhau bod Theatr y Sherman a'i staff yn chwarae rhan lawn ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol Dinas a Sir Caerdydd, a lle bo'n briodol, cefnogi ac ymateb i bolisiau a mentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Hyrwyddo Theatr y Sherman a'i weithgareddau ac eiriol ar eu rhan yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan weithredu fel prif lefarydd y cwmni.
- Cadw golwg ar ddatblygiadau ac arferion gorau yn y diwydiant theatr a thueddiadau diwylliannol/celfyddydol cysylltiedig, a chyfrannu at y ddadl ddiwylliannol.
- Gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol, cynnig arweinyddiaeth gadarn ac ysbrydoledig drwy greu amgylchedd gweithio cadarnhaol.
- Gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Pennaeth Cyllid a Gweinyddiaeth, sicrhau bod y rhaglen artistig yn cael cyllideb ddigonol, bod cynlluniau artistig yn aros o fewn y cyllidebau y cytunwyd arnynt, a bod y rhaglen artistig yn creu incwm digonol i gyfrannu at hyfywedd ariannol parhaus Theatr y Sherman.
- Gyda'r Rheolwr Codi Arian, ysbrydoli noddwyr ac arianwyr newydd drwy fynegi a chynnig gweledigaeth artistig sy'n darbwyllo, a chyfrannu at geisiadau cyllid ar gyfer mentrau datblygu artistiaid a chynyrchiadau.
- Sicrhau bod ymgynghori â'r Bwrdd a'i fod yn cael gwybod am yr holl ddatblygiadau artistig, cynigion, llwyddiannau a materion strategol allweddol, gan fynd i gyfarfodydd y Bwrdd (a chyfarfodydd pwyllgorau yn ôl y gofyn) a rhoi cymorth i'r Bwrdd – yn unigol ac ar y cyd – i ymwneud â gwaith Theatr y Sherman.
- Cadw golwg ar hunaniaeth brand/proffil y cwmni a chymeradwyo deunyddiau hyrwyddo, marchnata a chorfforaethol craidd.
- Gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol a staff allweddol eraill, gan gefnogi a hyrwyddo ethos datblygu cynaliadwy ac ystyried a gweithredu mesurau i leihau effaith amgylcheddol y cwmni a'i waith.

Cyfarwyddwr Artistig: Manyleb yr Unigolyn

Hoffai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr benodi Cyfarwyddwr Artistig sydd â dychymyg, personoliaeth, uchelgais a phrofiad – unigolyn eithriadol a fydd yn gallu cynnig gweledigaeth ar gyfer y theatr sy'n eglur ac yn darbwylo, gan gyfuno greddf artistig a chrebwyll ariannol.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn arweinydd artistig profiadol sydd ag enw da am wneud gwaith sy'n cael ei barchu yn y diwydiant, ac sydd wedi profi eu gallu i gydweithio gydag amrywiaeth eang o ymarferwyr ac ysbrydoli rhagoriaeth ym mhob agwedd ar waith y cwmni. Bydd ganddynt ymrwymiad go iawn i'r gwaith o ddatblygu cynulleidfaoedd, meithrin a datblygu artistiaid, arloesi mewn ymarfer theatr, a chreu partneriaethau creadigol a strategol gyda sefydliadau celfyddydol eraill.

HANFODOL

Profiad

- Hanes cadarn o gyfarwyddo neu oruchwylio cynyrchiadau proffesiynol llwyddiannus o safon artistig uchel mewn gofodau theatr o wahanol faint ac ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Profiad o weithio gyda sgwenwyr ac o gomisiynu a datblygu gwaith newydd.
- Profiad o gynnull, meithrin a rheoli timau creadigol.
- Profiad o ddatblygu blaengynlluniau strategol ac artistig.
- Profiad sylweddol o ddatblygu cyllidebau a therfynau amser ac o weithio oddi mewn iddynt.

Gwybodaeth a Sgiliau

- Y gallu i ddatblygu gweledigaeth artistig eglur, hyderus a chredadwy, a gallu a sgiliau amlwg fel artist.
- Gallu amlwg i gynnig cymorth dramayddol i sgwenwyr.
- Gallu a dealltwriaeth amlwg o amrywiaeth o waith dysgu, cyfranogi, allgymorth a chymunedol creadigol.
- Gallu gweld doniau a'u meithrin, a gallu goruchwylio a mentora gwaith ymarferwyr creadigol eraill.
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog a'r gallu i ganolbwyntio, ysbrydoli ac ysgogi eraill.
- Y gallu i rymuso eraill, i ddirprwyo cyfrifoldebau ac i reoli perfformiad.
- Sgiliau cyflwyno ac eiriolaeth ardderchog.
- Sgiliau rheoli adnoddau, cynllunio strategol a sgiliau artistig ardderchog
- Dealltwriaeth gadarn o'r cysylltiad rhwng datblygu cynulleidfaoedd a rhaglenni, a'r gallu i drosi hyn yn strategaeth artistig.
- Gallu wedi'i brofi i gydweithio, i ddatblygu, i gynnal ac i gryfhau perthnasau creadigol ac i ennyn parch proffesiynol yn y diwydiant.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r diwydiant theatr.

Nodweddion Personol

- Dychmygus, brwdfrydig ac yn meddu ar uchelgais artistig.
- Llawer o gymhelliad, ac ymrwymiad i gynulleidfaoedd, ansawdd ac ehangu mynediad.
- Datryswr problemau creadigol, gallu dadansoddi, negodi a dod i benderfyniadau pwyllog.
- Unigolyn hael sy'n teimlo gwir ddiddordeb yng ngwaith ymarferwyr eraill.
- Awydd i ymwneud â'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gweithio mewn gwlad ddwyieithog.

DYMUNOL

- Profiad o arwain sefydliad sydd mewn adeilad.
- Profiad o waith rhaglennu.
- Profiad o weithio mewn gwahanol ieithoedd.

Cyfarwyddwr Artistig: Manylion Contractiol

Cyflog:	Cyflog atyniadol sy'n gymesur â swydd mor bwysig â hon.
Tymor:	Cynigir y swydd am gyfnod penodol o bum mlynedd, yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf chwe mis yn llwyddiannus, i'w adnewyddu drwy gytundeb ar y cyd rhwng y Cyfarwyddwr Artistig a Bwrdd y Cyfarwyddwyr.
Oriau:	Nid yw oriau gwaith yr uwch staff yn rhai penodedig, ond disgwylir i ddeiliad y swydd weithio'r oriau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni dyletswyddau'r swydd yn briodol (o fewn y Gyfarwydddeb Oriau Gwaith bob amser).
Gwyliau:	25 diwrnod y flwyddyn a gwyliau statudol ar ben hynny.
Cyfnod Rhybudd:	6 mis (Mis fydd y cyfnod rhybudd yn ystod y cyfnod prawf)
Pensiwn:	Bydd Theatr y Sherman yn gwneud cyfraniad o 2% i Gynllun Pensiwn y Cwmni sy'n cael ei weithredu gan gwmni Legal & General
Cofnodion Troseddol:	Mae'r swydd hon wedi'i heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, a bydd cynnig cyflogaeth yn amodol ar gael cliriad derbyniol gan yr awdurdod gwirio perthnasol ar gyfer goruchwylio gwaith gyda phlant, pobl ifanc a phobl agored i niwed.
Hawl i weithio:	Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennau o dan Ddeddf Mewnffudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006
Geirdaon:	Bydd unrhyw gynnig cyflogaeth yn amodol ar gael geirdaon boddhaol.

- Adleoli: Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fyw o fewn pellter cymudo o'r theatr. Mae'n bosib y bydd modd negodi cymorth tuag at gostau adleoli
- Dyddiad cychwyn: Gobeithir y bydd y sawl a benodir wedi dechrau yn ei swydd erbyn mis Mai 2019, neu cyn hynny. Petai angen, gellid negodi cytundeb rhwng Theatr y Sherman a'r Cyfarwyddwr Artistig o ran sut y gellid rheoli gwaith oedd wedi'i gontractio cyn dod i'r swydd.
- I wneud cais: Os hoffech wneud cais, anfonwch eich cv a llythyr eglurhaol o ddim mwy na 3 tudalen gan nodi pam ydych chi'n meddwl eich bod chi'n addas ar gyfer y swydd i Heather Newill, Cyfarwyddwr AEM International: hnewill@aeminternational.co.uk (yn well) neu drwy'r post i AEM International Ltd, 13 Church Street, Framlingham, Suffolk. IP13 9BH. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener, 7 Rhagfyr 2018. Cynhelir cyfweiliadau ym mis Ionawr 2019. Bydd pob cais yn cael ei gydnabod.